# Mewnforio siwgr a melysyddion

Canllawiau ar ychwanegion, labelu, deunydd pecynnu a hylendid wrth fewnforio siwgr a melysyddion.

## Gwybodaeth gyffredinol

Mae'n rhaid i siwgr a melysyddion a gaiff eu mewnforio o wledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd (UE) fodloni'r un safonau a gweithdrefnau hylendid bwyd â bwyd a gynhyrchir yn y Deyrnas Unedig (DU) neu Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Fel arfer, nid oes angen tystysgrif iechyd arnoch chi i fewnforio'r cynhyrchion hyn.

## Trwyddedau mewnforio

Efallai na fydd angen trwydded iechyd nag hylendid arnoch chi i fewnforio bwyd, ond mae llawer o fwydydd o wledydd y tu allan i'r UE yn gofyn am drwyddedau at ddibenion masnachu, ac efallai y byddant yn destun cwotâu.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i wefan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig.

## Labelu

Mae gwybodaeth gyffredinol am labelu bwyd ar gael ar wefan GOV.UK. I gael cyngor ar labelu cynhyrchion penodol, ewch i wefan GOV.UK i ddod o hyd i Adran Safonau Masnach neu Adran Iechyd yr Amgylchedd eich awdurdod lleol.

## Cynhyrchion organig

Os ydych chi'n mewnforio cynhyrchion organig (cynhyrchion amaethyddol byw neu heb eu prosesu, cynhyrchion amaethyddol wedi'u prosesu i'w defnyddio fel bwyd neu fwyd anifeiliaid, deunydd ysgogi llystyfiant a hadau i'w tyfu) o du allan i'r UE, edrychwch ar wefan DEFRA i gysylltu â'r Tîm Mewnforion Organig. I gael gwybodaeth am reoleiddio a safonau organig, (gan gynnwys labelu) o fewn y DU, cysylltwch â'r Tîm Strategaeth Organig

## Deunydd pecynnu

Mae deunyddiau ac eitemau a ddaw i gysylltiad â bwyd, gan gynnwys y rhai a ddefnyddir i becynnu bwyd, yn dod o dan gwmpas deddfwriaeth gyson a chynhwysfawr yr UE, sydd wedi'i gweithredu'n llawn yn y DU. Mae'r ddeddfwriaeth yn arbennig o drylwyr wrth reoli deunyddiau ac eitemau plastig y bwriedir eu defnyddio ar gyfer bwyd. I gael gwybodaeth am ddiogelwch deunydd pecynnu, cysylltwch â'r Tîm Deunyddiau a ddaw i Gysylltiad â Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

## Hylendid bwyd

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau cyffredinol am hylendid bwyd, cysylltwch â'r Tîm Polisi Hylendid Bwyd.

## Plaladdwyr

I gael gwybodaeth am lefelau diogelwch plaladdwyr ar gyfer siwgr a melysyddion, cysylltwch â Chyfarwyddiaeth Rheoleiddio Cemegau Gweithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE).

## Halogion

Mae Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2013, yn darparu ar gyfer deddfu a gorfodi Rheoliadau'r Comisiwn sy'n gosod terfynau rheoleiddiol ar gyfer halogion mewn bwyd (nitrad, mycotocsinau, metelau, deuocsinau 3-MCPD a hydrocarbonau aromatig polcyclic) ar ein gwefan.

## Cyfyngiadau mewnforio

Rheolir ychwanegion bwyd cymeradwy, fel melysyddion, yn yr UE drwy gyfrwng rhestr gadarnhaol yn y ddeddfwriaeth unwaith y caiff eu diogelwch ei hasesu'n fanwl. Mae'r ddeddfwriaeth yn disgrifio'r rheolau ar gyfer gwerthu a defnyddio melysyddion, yn disgrifio gyda pha gategorïau bwyd y gellir eu defnyddio a'r lefelau dos y gellir eu defnyddio yn y categorïau hyn. Ni chaniateir melysyddion nad ydynt yn ymddangos yn y rhestr mewn bwydydd os ydynt yn cael eu defnyddio'n bennaf fel swyddogaeth ychwanegyn.

I gael rhagor o wybodaeth am felysyddion, cysylltwch â'n Tîm Ychwanegion Bwyd drwy ein ffurflen ar-lein.

O 2 Rhagfyr 2011, caniateir defnyddio glycosidau Steviol mewn rhai bwydydd ar lefelau penodol. Mae glycosidau steviol (gan gynnwys stevioside a rebaudioside A) yn felysyddion dwys iawn, sydd 250-300 gwaith yn fwy melys na swcros. Maent yn cael eu hynysu a'u puro o ddail y planhigyn stevia (Stevia rebaudiana Bertoni). Bydd hawl defnyddio glycosidau steviol sy'n cydymffurfio â meini prawf purdeb penodol mewn mathau penodol o fwyd (megis diodydd meddal, danteithion a melysyddion bwrdd yn ddibynnol ar lefelau uchafsymiau penodedig.

Ystyrir bod dail stevia yn fwydydd newydd ac maent yn destun proses ymgeisio a chymeradwyo ar wahân cyn y gellir eu rhoi ar y farchnad yn gyfreithlon yn yr UE. Mae cais i gymeradwyo'r dail dan ddeddfwriaeth Bwydydd Newydd yr UE wrthi'n cael ei werthuso.